[sgroliwch i lawr am y Gymraeg / scroll down for Welsh]

**Liberty Protection Safeguards**

**NEWSLETTER**

6 July 2022

This newsletter provides you with an update on key milestones in our progress to implement the Liberty Protection Safeguards (LPS) in Wales.

## Consultation

The Welsh Government consultation on the LPS draft Regulations for Wales was published on the 17 March. As most stakeholders will now know, Welsh Government have extended the consultation response deadline by one week to align with the UK Government. **The deadline to respond is now 14 July.**

All of the consultation documents and additional resources to help you discuss and respond to the consultation can be found here:

https://www.gov.wales/liberty-protection-safeguards

https://www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid

Separately, the UK Government is consulting on draft Regulations for England and the draft Code of Practice for England and Wales, **the deadline to respond to this consultation is also now 14 July**.

**STAKEHOLDERS IN WALES WILL ALSO NEED TO RESPOND TO THE UK GOVERNMENT CONSULTATION ON THE DRAFT CODE OF PRACTICE FOR ENGLAND AND WALES.**

Details of how you can do that can be found here:

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-mca-code-of-practice-and-implementation-of-the-lps

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-law-and-guidance-about-making-your-own-decisions-easy-read

**Engagement Sessions on Draft Regulations for Wales**

During the week beginning the 13 June, we held several engagement sessions of the Draft Regulations for Wales. These sessions were themed based on the draft Regulations for Wales, focussing on Assessments and Determinations; Independent Mental Capacity Advocates (IMCAs); Approved Mental Capacity Professionals; and Monitoring and Reporting Regulations. Each session allowed stakeholders to consider key questions provided by Welsh Government, as well as a chance to raise any issues that had come up from their own discussion.

Following these sessions, we have updated our FAQ document for questions on undertaking assessments, and monitoring and reporting, which we have shared alongside this newsletter. The additional questions raised during the engagement sessions are found at the end of the FAQ document. The updated questions on AMCPs and IMCAs will follow shortly.

**LPS Implementation Steering Group for Wales**

The LPS Steering Group for Wales met again on the 22 June. During this meeting, Welsh Government updated stakeholders on the engagement sessions held to date, as well as plans for workforce and training, and funding for the LPS. Welsh Government talked through the emerging themes from the LPS consultation so far. This included emerging findings shared by the UK Government with their LPS Steering Group, regarding feedback on the LPS Code of Practice. We also talked through emerging findings from written responses to the Welsh Government consultation of the draft Regulations for Wales, and emerging themes from Welsh Government consultation events. The Steering Group for Wales will meet again after the end of the consultation period.

**Additional Sessions**

On 20 June we held two events, one with Allied Health Professions and one specifically focusing on Dementia. During these events, we covered key issues relating to the draft Regulations for Wales. On 4 July, we held a session focussing on the LPS and Learning Disability.

**Copies of Presentations**

We have attached a copy of the PowerPoint Presentation used during our engagement session focussing on Learning Disabilities. The presentation provides the context and key points of the Liberty Protection Safeguards, as well as an overview of each of the draft Regulations. If you would like to receive a copy of the presentations for any of the specific sessions on the Regulations, please contact the Mental Health and Vulnerable Groups Mailbox.

MentalHealthandVulnerableGroups@gov.wales

**Engagement with Children and Young People**

Children in Wales are leading on our engagement with young people on the draft Regulations for Wales. Children in Wales held a workshop with young people on the LPS during a residential event on 7-8 May. They looked at specific questions from the consultation response form, discussed relating themes and looked at the animation and video set. They are also planning bespoke sessions with two special schools.

**Consultation Responses**

Since the publication of our consultation, we have received 22 responses (as at 6 July). We look forward to hearing from more people in the lead up to 14 July.

Best wishes / Cofion gorau,

**Mental Health, Substance Misuse and Vulnerable Groups Division**

**Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**

**CYLCHLYTHYR**

6 Gorffennaf 2022

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cerrig milltir allweddol yn ein cynnydd at weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (yr LPS) yng Nghymru.

**Ymgynghoriad**

Cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoliadau drafft yr LPS i Gymru ei gyhoeddi ar 17 Mawrth. Fel y gŵyr y rhan fwyaf o randdeiliaid yn awr, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad o un wythnos i gyd-fynd â Llywodraeth y DU. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 14 Gorffennaf erbyn hyn.

Mae modd canfod yr holl ddogfennau ymgynghori - a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'ch helpu chi i drafod ac ymateb i'r ymgynghoriad - yma:

https://www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid

https://www.gov.wales/liberty-protection-safeguards

Ar wahân, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar Reoliadau drafft ar gyfer Lloegr a'r Cod Ymarfer drafft ar gyfer Cymru a Lloegr, **a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 14 Gorffennaf hefyd**.

**BYDD ANGEN I RANDDEILIAID YNG NGHYMRU HEFYD YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH Y DU AR Y COD YMARFER DRAFFT AR GYFER CYMRU A LLOEGR**.

Mae'r wybodaeth ar sut i wneud hynny ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-mca-code-of-practice-and-implementation-of-the-lps

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-law-and-guidance-about-making-your-own-decisions-easy-read

**Sesiynau Ymgysylltu ar Reoliadau Drafft i Gymru**

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 13 Mehefin, cynhaliwyd sawl sesiwn ymgysylltu o Reoliadau Drafft Cymru. Cafodd y sesiynau hyn eu seilio ar y Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru, gan ganolbwyntio ar Asesiadau a Phenderfyniadau; Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCAs); Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy; a Rheoliadau Monitro ac Adrodd. Roedd pob sesiwn yn caniatáu i randdeiliaid ystyried cwestiynau allweddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chyfle i godi unrhyw faterion a oedd wedi codi o'u trafodaeth eu hunain.

Yn dilyn y sesiynau hyn, rydym wedi diweddaru ein dogfen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer cwestiynau ar gynnal asesiadau, a monitro ac adrodd, yr ydym wedi'u rhannu ochr yn ochr â'r cylchlythyr hwn. Mae'r cwestiynau ychwanegol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen Cwestiynau Cyffredin. Bydd y cwestiynau diweddaraf ar AMCPs ac IMCAs yn dilyn yn fuan.

**Grŵp Llywio Gweithredu LPS i Gymru**

Cyfarfu Grŵp Llywio LPS Cymru eto ar 22 Mehefin. Yn ystod y cyfarfod hwn, rhoddodd Llywodraeth Cymru y wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am y sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y gweithlu a hyfforddiant, a chyllid ar gyfer yr LPS. Siaradodd Llywodraeth Cymru drwy'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad LPS hyd yn hyn. Roedd hyn yn cynnwys canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg a rennir gan Lywodraeth y DU gyda'u Grŵp Llywio LPS, ynghylch adborth ar God Ymarfer LPS. Buom hefyd yn trafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau drafft i Gymru, a themâu sy'n dod i'r amlwg o ddigwyddiadau ymgynghori Llywodraeth Cymru. Bydd Grŵp Llywio Cymru yn cyfarfod eto ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

**Sesiynau Ychwanegol**

Ar 20 Mehefin cynhaliwyd dau ddigwyddiad, un gyda Phroffesiynau Perthynol i Iechyd ac un yn canolbwyntio'n benodol ar Ddementia. Yn ystod y digwyddiadau hyn, gwnaethom ymdrin â materion allweddol yn ymwneud â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru. Ar 4 Gorffennaf, cynhaliwyd sesiwn yn canolbwyntio ar yr LPS a'r Anabledd Dysgu.

**Copïau o Gyflwyniadau**

Rydym wedi amgáu copi o'r Cyflwyniad PowerPoint a ddefnyddiwyd yn ystod ein sesiwn ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar Anableddau Dysgu. Mae'r cyflwyniad yn darparu cyd-destun a phwyntiau allweddol y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, yn ogystal â throsolwg o bob un o'r Rheoliadau drafft. Os hoffech dderbyn copi o'r cyflwyniadau ar gyfer unrhyw un o'r sesiynau penodol ar y Rheoliadau, cysylltwch â'r Blwch Post Grwpiau Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed.

MentalHealthandVulnerableGroups@gov.wales

**Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc**

Mae Plant yng Nghymru yn arwain ein hymgysylltiad â phobl ifanc ar y Rheoliadau drafft i Gymru. Cynhaliodd Plant yng Nghymru weithdy gyda phobl ifanc ar yr LPS yn ystod digwyddiad preswyl ar 7-8 Mai. Edrychwyd ar gwestiynau penodol o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, trafod themâu cysylltiedig ac edrych ar y set animeiddio a fideo. Maent hefyd yn cynllunio sesiynau pwrpasol gyda dwy ysgol arbennig.

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Ers cyhoeddi ein hymgynghoriad, rydym wedi derbyn 22 o ymatebion (ar 6 Gorffennaf). Edrychwn ymlaen at glywed gan fwy o bobl yn y cyfnod cyn 14 Gorffennaf.

Cofion gorau,

**Is-adran Grwpiau Iechyd Meddwl, Polisi Camddefnyddio Sylweddau ac Agored i Niwed**